menter caerdydd

# MENTER CAERDYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22 ANNUAL REPORT 2021/22



**Gair o'r Gadair**

Braf iawn oedd croesi trothwy'r flwyddyn heb yr un cyfyngiadau a fu yn y blynyddoedd cynt gyda'r gobaith o fwynhau plethdoreth o weithgareddau yn y modd y cynlluniwyd hwy – boed wyneb yn wyneb neu arlein.

Bu'n gyffrous i groesawu Prif Weithredwr newydd i'r Fenter gyda'r egni a brwdfrydedd a ddaw o waed newydd. Rwy'n hynod falch a diolchgar bod Heulyn Rees wedi ymgartrefu yn ei rôl ac yn arwain ar dîm ymroddedig a thalentog o staff.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Aelodau Bwrdd Menter Caerdydd am eu cefnogaeth parod dros gyfnod heriol. Gyda'n gilydd yr ydym yn parhau i lywio'r elusen bwysig hon ar sylfeini llywodraethiant gadarn.

Cafodd yr Hen Lyfrgell hwb i'w enaid a ninnau â chymdogion newydd yn ein plith - sef Y Coleg Cerdd a Drama. Dyma ymgorfforiad o ddiwylliant cerddorol y ddinas o fewn ein muriau a phartner rhwydd a brwdfrydig i rannu syniadau a chydweithio â hwy ar amryw brosiect.

Pinacl amlwg y calendr blynyddol yw Tafwyl wrth gwrs, ac eleni bûm yn falch i lwyfannu Gwyl o fu'n un o ddigwyddiadau prawf Llywodraeth Cymru. Eleni fe groesawyd y torfeydd yn eu hôl ac fe lwyddom i gynnig yr Ŵyl yn ddigidol i gynulleidfa ehangach. Roedd y wefr o fod yn ôl i fwynhau yr Ŵyl yn amlwg ar wynebau y cannodd a ddaeth i fwynhau.

Wrth gwrs – un penwythnos o weithgaredd yw Tafwyl ac mae gwaith y Fenter yn parhau trwy'r flwyddyn. Mawr yw ein diolch i'n partneriaid a'n noddwyr wrth i ni gynnig llechen wythnosol o ddigwyddiadau ar draws ein sectorau a'n blaenoriaethau strategol. Dyma ddau enghraifft bwysig i'w nodi -

- Datblygwyd ffrwd newydd o ddigwyddiadau i gynulleidfa hŷn y ddinas drwy gefnogaeth y Loteri – gwaith sydd wedi profi'n boblogaidd ac o bwys i'r sector hon.
- Ar ôl sgîl effaith gwael y pandemig ar ein pobl ifanc - mae'r Cyngor wedi bod yn allweddol i gefnogi ein gwasanaeth i bobl ifanc y ddinas gyda dychweliad Bwrlwm a Hâf o Hwyl i'r cynnig. Diolchwn iddynt am gadw'r ffydd yn ein gallu i gynnig darpariaeth raenus, hwyliog a phroffesiynol i'r to iau.

Yn wir ni allwn gyflawni ein gweithgareddau heb gefnogaeth ein holl noddwyr ac rydym yn gwbl ddiolchgar amdanynt.

Ymlaen yr awn i barhau â'r nôd o gynyddu defnydd cymdeithasol a mwyniant yr iaith yn ein Prifddinas.

**Joanna Adams**

***A Word from the Chair***

*It was very gratifying to cross the threshold of the year without the same restrictions that had been in previous years with the hope of enjoying a plethora of activities in the way they were planned – whether in person or online.*

*It was exciting to welcome a new CEO with the energy and enthusiasm that comes with new blood. I am extremely proud and grateful that Heulyn Rees has settled into his role and is leading a dedicated and talented team of staff.*

*I would like to take the opportunity to thank the Members of the Menter Caerdydd Board for their willing support over a challenging time. Together we continue to steer this important charity on the foundations of sound governance.*

*The Old Library had a boost to its soul as we have a new neighbour among us - the Royal Welsh College of Music and Drama. This is the embodiment of the city's musical culture within our walls and an easy and enthusiastic partner to share ideas and collaborate with on various projects.*

*The obvious pinnselacle of the annual calendar is of course Tafwyl, and this year we were proud to be a Welsh Government test event. This allowed us to welcome 500 live guests and we were able to offer the festival digitally to a wider audience. The thrill of being back to enjoy the Festival was evident on the faces of the hundreds s who came to enjoy.*

*Of course – Tafwyl is one weekend of activity and the work of Menter Caerdydd continues throughout the year. We are thankful to our partners and sponsors as we offer a weekly slate of events across our sectors and strategic priorities. Here are two important examples to note -*

- *A new stream of events for the city's older audience has been developed through the support of the Lottery – work that has proven popular and of importance to this sector.*
- *Following the impact of the pandemic on our young people the Council has been instrumental in supporting our service to the city's young people with the return of Bwrlwm and Summer of Fun to our offer. We thank them for keeping faith in our ability to offer quality, fun and professional provision to younger people.*

*Indeed we cannot fulfil our obligations without the support of all our sponsors and we are very grateful to them all.*

*Onwards we go to continue the aim of increasing the social use and enjoyment of the language in our Capital.*

***Joanna Adams***

**Gair gan y Prif Weithredwyr**

Mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid i Fenter Caerdydd. Wedi cyfnod o weithio o hir bell yn ystod y cyfnod clo roedd hi'n braf dychwelyd i gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Er hyn mae'r ddarpariaeth bresennol wedi cadw'r gorau o'r dulliau newydd o weithio a gyflwynwyd yn y cyfnod clo ac yn adlewyrchu dymuniad nifer o bobl i dderbyn gwasanaeth ar –lein mewn ambell gyd-destun.

Roeddem yn falch iawn i gael y cyfle i fod yn un o weithgareddau peilot Llywodraeth Cymru wrth i'r cyfyngiadau lacio a llwyddwyd i gynnal Tafwyl fel digwyddiad hybrid wrth i 500 fynychu'r wyl yng Nhastell Caerdydd tra bod dros 35,000 wedi mwynhau yr wyl yn ddigidol o bedawr ban byd.

Ar lefel bersonol hoffwn ddiolch i'r tîm staff, aelodau'r Bwrdd Rheoli, cefnogwyr a phartneriaid am eu croeso a'u cefnogaeth wrth i mi gychwyn ar fy nghyfnod fel Prif Weithredwr newydd Menter Caerdydd. Rydym yn ffodus iawn i fod â chriw mor ymroddgar sydd wedi bod mor barod i fod yn hyblyg ac arloesol yn eu dulliau o weithio.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ennill y brif wobr yng nghwobrau Cardiff Life Awards lle rhoddwyd cydnabyddiaeth i'n parodrwydd i gydweithio gyda'r sector busnes, y sector wirfoddol, ysgolion a gwirfoddolwyr wrth greu rhaglen o weithgareddau apelgar mewn cyfnod o newid parhaus.

Ein nôd fel Menter Iaith yw gwneud gwahaniaeth i allu pobl i fyw yn Gymraeg yn y ddinas ac mae hyn yn gofyn am y parodrwydd i fod yn flaengar fel tîm o staff. Mae'r Fenter yn hynod o falch o'r ffaith ein bod wedi cydweithio gyda chymaint o bartneriaid gwahanol ar draws y ddinas ac i fod yn bartner mor ganolog i strategaeth newydd Caerdydd Ddwyieithog 2022-27. Rydym eisioes wedi dechrau ar y gwaith o wireddu amcanion y strategaeth hynod o gyffrous hon ac yn falch iawn o'r gefnogaeth a dderbyniwyd wrth Gyngor Caerdydd wrth gyflawni ein gwaith ym maes plant gyda'r gwasanaeth Bwrlwm, clybiau Gofal, darpariaeth gwyliau a ieuenctid.

Rydym yn ymwybodol bod cyfnod heriol iawn o'n blaen fel gwlad ond er hyn edrychwn ymlaen i barhau i feithrin ein perthynas â phartneiriad ac i arloesi fel sefydliad wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn ein Prifddinas.

**Heulyn Rees**
**Prif Weithredwr Menter Caerdydd**

***A word from the Chief Executive***

*2021/22 has been a year of change for Menter Caerdydd. After a period of remote working during lockdown it was nice to return to in-person activities as the year went on. Despite this the current provision has retained the best of the new ways of working introduced during lockdown and reflects many people's desire to receive an online–service in some contexts.*

*We were delighted to have the opportunity to be one of Welsh Government's pilot activities as restrictions eased and Tafwyl was able to be held as a hybrid event as 500 attended the festival at Cardiff Castle while over 35,000 enjoyed the festival digitally from around the world.*

*On a personal level I would like to thank the team of staff, members of the Board of Management, supporters and partners for their welcome and support as I entered my time as the new Chief Executive of Menter Caerdydd. We are very fortunate to have such a dedicated crew who have been so willing to be flexible and innovative in their approaches.*

*One of the highlights of the year was winning the top prize at the Cardiff Life Awards where recognition was given to our willingness to collaborate with the business sector, voluntary sector, schools and volunteers in creating a programme of appealing activities in a time of continuous change.*

*Our aim as Menter Iaith is to make a difference to people's ability to live in Welsh in the city and this requires the willingness to be forward thinking as a team of staff. Menter Caerdydd is incredibly proud of the fact that we have collaborated with so many different partners across the city and to be such a central partner to the new Bilingual Cardiff Strategy 2022-27. We have already begun work on realising the objectives of this very exciting strategy and are delighted with the support received by Cardiff Council in carrying out our children's work with the open access play service, care clubs, holiday provision and youth provision.*

*We are aware that there are very challenging times ahead as a country but despite this we continue to build our relationship with patners and innovate as an organisation to promote the Welsh language in our Capital.*

***Heulyn Rees***
***Prif Weithredwr Menter Caerdydd***



## CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
## SOCIAL MEDIA

| | Facebook | Instagram | Twitter |
|---|---|---|---|
| **2020/21** | 4,250 | 1,700 | 5,700 |
| **2021/22** | 4,895 | 2,055 | 5,922 |
| **Cynnydd / *Increase*** | +15 % | +21% | +4% |



## DIGWYDDIADAU I BLANT A PHOBL IFANC
## ACTIVITIES FOR CHILDREN AND YOUNG PEOPLE

Nifer o weithgareddau
*Number of activities* – **409**

Nifer o fynychwyr
*Number of attendees* – **8,235**

409 | 8,235

### Bwrlwm / Play Scheme

**6** lleoliad

**1,390** o fyncyhwyr


Mae **67%** o'r plant sy'n dewis y gwasanaeth chwarae hwn yn dod o gartrefi Di-Gymraeg!

***6** locations*

***1,390** participants*

***67%** of children attending this service came from non-Welsh speaking backgrounds*

6 | 1,390 | 67%



**92%** yn dewis sesiynau chwarae BWRLWM Menter oherwydd ei fod yn wasanaeth Cymraeg

***92%** chose Bwrlwm because it was a Welsh language service*

100%

**100%** yn cytuno bod Bwrlwm yn gyfle i godi hyder eu plant i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol

***100%** agreed that Bwrlwm was an opportunity to raise linguistic confidence and to use Welsh socially*









***"My daughter absolutely loved the sessions. They were great for socialising and developing her Welsh language skills.***

***"Maent yn bwysig oherwydd eu bod yn rhoi cyfle i blant gymysgu gyda plant o ysgolion eraill ac i siarad Cymraeg yn ystod y gwyliau."***

***"I just wanted to say a big thank you for putting my girls on the horse riding sessions. They absolutely loved it and the experience has created a lovely memory for them these holidays. It was very much appreciated. Kind regards"*** – darpariaeth ieuenctid Haf o Hwyl

## DARPARIAETH GOFAL / CARE PROVISION:

Dros **2500** yn mynychu sesiynau Gofal dros y flwyddyn

*Over **2,500** attended the Care sessions*

+2,500







***"Fe wnaeth fy mhlentyn fwynhau'r gweithgareddau yn fawr a theimlaf fod amserlen llawn dop o bethau hwylus iddynt wneud."***

## GWEITHGAREDDAU I OEDOLION / ACTIVITIES FOR ADULTS

Cyfuniad o weithgareddau ar-lein a wyneb yn wyneb / *A mix of online activities and face to face activities*

Cyfanswm = **73** sesiwn yn denu **466** o bobl / *Total = **73** sessions attracting over **466** people*

73

466

***"Llongyfarchiadau calonnog i bawb a fu'n trefnu'r cwrs llwyddiannus yma a diolch o waelod calon am oriau o bleser pur. Diolch yn arbennig i chi, Rachel, am eich gofal ohonom o wythnos i wythnos ac am eich hynawsedd amheuthun. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfan."***
- Megan - Byd Natur a'r Beirdd)





## TAFWYL 2021

Ymunodd cynulleidfa fyd-eang o dros **35,000** o bobl i fwynhau fersiwn ddigidol o Tafwyl eleni gyda **500** lwcus yn cael mynychu fel digwyddiad byw ac eraill yn gwylio o **UDA, Tsieina, Rwsia, Yr Ariannin** ac **Indonesia** i enwi ond rhai gwledydd.

Roedd cyfuniad gyffrous o gerddoriaeth byw, llenyddiaeth, trafodaethau a gweithgareddau.

*Over **35,000** watched digitally from all over the world including **USA. China, Russia** and **Argentina** whilst **500** attended in person.*

*There was and exciting mix of music, literature and talks.*





***"Wedi wir fwynhau, diolch"***



***Nifer a wyliodd yn ddigidol***
***Numbers watching digital stream***

**39.7k**

Nifer a wyliodd uchafbwyntiau Tafwyl ar S4C / *Numbers wathing the highlights on S4C*

**10k**

Nifer a fynychodd y digwyddiad prawf yn fyw / *Numbers attaending the test event live*

**500**

Dilynwyr cyfryngau cymdeithasol Tafwyl / *Tafwyl social media followers*

**21.7k**


**MENTERCAERDYDD.CYMRU**

@M.Caerdydd @MenterCaerdydd MenterCaerdydd



Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565


Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff | menter caerdydd | CARDIFF CAERDYDD | Llywodraeth Cymru Welsh Government